# Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Newidiodd y gyfraith diogelu data yn y DU ym mis Mai 2018.

Mae'r GDPR newydd (Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol) yn disodli'r Ddeddf Diogelu Data (DPA) bresennol, a bydd yn cryfhau ac yn uno'r holl ddata a gedwir gan Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin. Mae GDPR yn dod â chyfrifoldeb newydd i roi gwybod i rieni a rhanddeiliaid sut yr ydym yn defnyddio data disgyblion a phwy sydd yn ei ddefnyddio.

**Beth mae GDPR yn ei olygu i Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin?**

Bydd llawer o'r gwaith o brosesu data personol a wneir gan ysgolion yn dod o dan sail gyfreithiol benodol, 'er budd y cyhoedd'. Gan ei bod er budd y cyhoedd i weithredu ysgolion yn llwyddiannus, bydd yn golygu na fydd angen caniatâd penodol yn y mwyafrif o achosion mewn ysgolion.
Bydd GDPR yn sicrhau bod data'n cael ei ddiogelu a bydd yn rhoi mwy o reolaeth i unigolion dros eu data, ond mae hyn yn golygu bod gan Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin fwy o atebolrwydd am y data:

- O dan GDPR, rhaid rhoi caniatâd yn benodol i unrhyw beth nad yw o fewn busnes arferol yr ysgol, yn enwedig os yw'n golygu bod trydydd parti yn rheoli'r data. Rhaid i rieni (neu'r disgybl eu hunain yn dibynnu ar eu hoedran) fynegi caniatâd i ddata eu plentyn gael ei ddefnyddio y tu allan i fusnes arferol yr ysgol.
- Rhaid i ysgolion benodi Swyddog Diogelu Data (Mr Alun Sterl) a gallu profi eu bod yn cydymffurfio â GDPR.
- Rhaid i ysgolion sicrhau bod eu cyflenwyr trydydd parti a all brosesu unrhyw ran o'u data, gydymffurfio â GDPR a bod yn rhaid iddynt gael contractau cyfreithiol rwymol gydag unrhyw gwmni sy'n prosesu unrhyw ddata personol. Rhaid i'r contractau hyn gwmpasu pa ddata sy'n cael ei brosesu, pwy sy'n cael ei brosesu ganddo, pwy sydd â mynediad iddo a sut y caiff ei ddiogelu.
- Bydd yn orfodol bod yr holl achosion o dorri data sy'n debygol o gael effaith andwyol ar destun y data, cael eu trosglwyddo i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth o fewn 72 awr.

Petai gennych unrhyw gwestiynau, pryderon neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth am unrhyw beth a grybwyllir yn ein hysbysiad preifatrwydd, cysylltwch â'r Pennaeth, Mr Ceri Scourfield, neu ein swyddog diogelu data, Mr Alun Sterl, trwy gysylltu â’r ysgol.